OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 414 (Cy. 96)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# GWASTRAFF, CYMRU

## Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -* | *18 Chwefror 2019* |
| *Gwnaed - - - -* | *28 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *1 Mawrth 2019* |

*Coming into force in accordance with regulation 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

(a) mewn perthynas â Rhan 1, y pwerau a grybwyllir ym mharagraffau (b) ac (c);

(b) mewn perthynas â Rhan 2, adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**);

(c) mewn perthynas â gweddill y Rheoliadau, paragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi (**3**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran—

(d) mesurau sy'n ymwneud ag atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff a rheoli pecynnu a gwastraff pecynnu(**4**);

(e) atal, lleihau a rheoli gwastraff(**5**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (yn ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51), adran 27(1)(a) a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), yr Atodlen, Rhan 1. Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), adran 1 o'r diwrnod ymadael (gweler adran 20 o'r Ddeddf honno).

(**2**) 2018 p.16.

(**3**) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran unrhyw fater, neu at unrhyw ddiben, os ydynt wedi eu dynodi o ran y mater hwnnw neu at y diben hwnnw.

(**4**) O.S. 2005/850, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Yn rhinwedd paragraff 28(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae O.S. 2005/850 yn cael effaith fe pe bai wedi ei wneud o dan adran 59(1) o'r Ddeddf honno.

(**5**) O.S.2010/1552.